

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Ymateb i COVID-19	2
3.	Ein dull gweithredu a beth sy'n ei lunio	3
4.	Contractio a llwybrau caffael	5
5.	Negeseuon allweddol maes gwasanaeth a bwriadau comisiynu	6
5.1	Pobl hŷn a phobl 18 oed a hŷn gyda nam corfforol neu nam ar y synhwyrau	6
5.1.1.	Gofal cartref, gan gynnwys gwaith cefnogi a gofal cartref arbenigol	6
5.1.2.	Gwasanaethau/gweithgareddau dydd	8
5.1.3.	Seibiannau tymor byr	9
5.1.4.	Cartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio	10
5.1.5.	Tai gofal ychwanegol	12
5.1.6.	Cefnogaeth arbenigol nam ar y synhwyrau	12
5.1.7.	Eiriolaeth	13
5.2	Oedolion ag anableddau cymhleth	14
5.2.1.	Gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith	14
5.2.2.	Llety â chymorth	16
5.2.3.	Cymorth gartref (wedi'i reoleiddio a heb ei reoleiddio)	14
5.2.4.	Seibiant	20
5.2.5.	Eiriolaeth, ymgynghori a gwybodaeth	21
5.3	Cymorth i ofalwyr	24
5.3.1.	Darpariaeth a ariennir gan grantiau a'r Gronfa Gofal Integredig	24
5.3.2.	Gwybodaeth, cyngor ac ymgysylltiad	24
5.3.3.	Cymorth un i un	24
5.3.4.	Seibiant oddi wrth ofalu	24
5.3.5.	Cymorth arall – ariannol, brys a hyfforddiant	24

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi datganiad sefyllfa'r farchnad a bwriadau comisiynu Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2021 – 2024.

Mae ein datganiad sefyllfa'r farchnad yn nodi ein cynnig i'r farchnad ac mae'n crynhoi'r anghenion a blaenoriaethau presennol – gan helpu darparwyr presennol/posibl (gan gynnwys y sector annibynnol, y trydydd sector, mentrau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol) i ddatblygu a ffurfio eu cymorth i oedolion yn Sir Ddinbych.

Cysylltwch â ni yn C&CteamCSS@denbighshire.gov.uk / 01824 712306 os ydych chi'n dymuno trafod y ddogfen hon neu unrhyw agwedd ar ein sefyllfa'r farchnad a bwriadau comisiynu.

Sylwch: Mae bwriadau comisiynu ar gyfer cefnogaeth atal digartrefedd wedi'u nodi mewn cynllun comisiynu blynyddol ar wahân – cysylltwch â ni os hoffech gael copi ohono.

2. Ymateb i COVID-19

Mae feirws COVID-19 wedi cyflwyno heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen i'r sector gofal cymdeithasol a'r bobl y mae'n eu cefnogi. Rydym yn ddiolchgar i'r darparwyr gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych sydd wedi bod yn ymateb i heriau enfawr ac wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod unigolion a'u gofawrwr a'u teuluoedd yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'n rhaid i ni barhau i ymateb i anghenion sy'n newid, a sicrhau bod modd parhau i ddarparu gofal a chefnogaeth lle mae eu hangen fwyaf. Mae'n rhaid i ni hefyd barhau i ddysgu gwersi pwysig o'r heriau a gyflwynir, a chanfod cyfleoedd ar gyfer newidiadau cadarnhaol i'r ffyrdd rydym ni'n gweithio. Yn ystod yr argyfwng hwn, rydym wedi gweld llawer o wahanol wasanaethau, sectorau a rhannau o'r gymuned yn dod at ei gilydd a chydweithredu mewn ffyrdd newydd. Mae cadw pellter corfforol wedi amlygu'r angen am ffyrdd gwell o gadw pobl mewn cysylltiad â'i gilydd hefyd ac atal unigedd, gan gynnwys trwy ddefnyddio gwahanol dechnoleg. Rydym wedi gweld pa mor hanfodol mae gwasanaethau eirioli wedi bod o ran sicrhau nad yw llais dinasyddion yn cael ei golli yn ystod cyfnod o reoli argyfwng dros ardal eang.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Mae ein perthynas gyda darparwyr wedi newid hefyd. Ers i'r argyfwng ddechrau, rydym wedi datblygu dull gweithredu mwy agored a chefnogol o lawer gyda llawer o ddarparwyr. Mae rhagor o gyfleoedd am gefnogaeth gan gymheiriaid hefyd. Rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn, a sicrhau bod cyfathrebu agored a chefnogi ein gilydd yn parhau i fod yn gredoau hanfodol o ran sut rydym ni'n gweithio yn Sir Ddinbych.

3. Ein dull gweithredu a beth sy'n ei lunio

Mae cydgynhyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr yn ffordd allweddol o lunio ein dull gweithredu, yn weithredol a strategol. Rydym yn parhau i weithio i gynnwys cydgynhyrchu yn ein gwaith o gynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gofal a chefnogaeth.

Yn genedlaethol, mae cyfeiriad strategol Awdurdodau Lleol yn cael ei osod gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda'i hegwyddorion llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn fuan, llesiant a cydgynhyrchiad. Rhai o brif ddarpariaethau'r Ddeddf yw:

- Llais cryfach a rheolaeth go iawn i bobl dros y gwasanaethau cymdeithasol y maent yn eu defnyddio
- Atal ac ymyrryd yn fuan, wedi'i gefnogi gan weithio mewn partneriaeth ac integreiddio
- Asesiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Meini prawf cymhwyso cenedlaethol – gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, bydd pobl yn cael eu hasesu ar yr hyn y mae arnynt ei angen, yn hytrach nag yn ôl pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol yn unig
- Cryfhau pwerau ar gyfer diogelu plant ac oedolion
- Ymestyn yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael trwy daliadau uniongyrchol
- Asesiadau cludadwy
- Hawliau cyfartal i ofalwyr

Mae nifer o gynlluniau a strategaethau lleol sy'n llywio ein dull gweithredu hefyd, gan gynnwys:

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017 – 2022, gan gynnwys blaenoriaethau allweddol o ran cefnogi gofalwyr a datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol di-dor.
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (2018-23), sy'n canolbwyntio ar wella llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych – defnyddio dull gweithredu 'Beth sy'n Bwysig' a'n holwyn adnoddau sy'n seiliedig ar asedau i gefnogi sgysiau seiliedig ar gryfderau.

Rydym yn parhau i wynebu nifer o heriau oherwydd galw cynyddol a phrinder adnoddau ariannol. Ar yr un pryd, mae deddfwriaeth newydd a dulliau cefnogaeth cyfoes yn cynnig cyfleoedd i helpu dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau'n well. Mae angen i ni barhau i foderneiddio a datblygu, gan gynnwys trwy gydgyhyrchu a chydweithio, a chefnogi pobl i ddefnyddio rhwydweithiau cefnogaeth a thechnoleg newydd.

Yn y pen draw, mae'n rhaid i'n ffocws fod ar ymyrryd yn gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Ein cenhadaeth yw rhoi pobl wrth galon y penderfyniadau am y math o gefnogaeth y gallant ei chael. I lawer o bobl, bydd hyn yn golygu y gellir rhoi cyllideb gefnogaeth/taliad uniongyrchol iddyn nhw reoli eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gomisiynu gofal a chefnogaeth a reolir ar gyfer y rhai sydd ei angen hefyd.

Felly byddwn yn ceisio gweithio gyda, a chomisiynu, gan ddarparwyr sy'n croesawu:

- Cynnal sgysiau ystyrion gyda phobl
- Cysylltu pobl gyda'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Galluogi pobl i gynyddu eu hannibyniaeth a chymryd rheolaeth o'u bywydau
- Adeiladu ar gryfderau a gallu pobl i ganfod atebion unigol

Yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, hoffem hefyd weithio gyda darparwyr a fydd yn helpu i liniaru risgiau trwy gefnogi ein dull gweithredu a dylanwadu arno, ac a fydd yn cynnig gwerth gorau trwy gyflawni canlyniadau blaenoriaethol, a chydweithio creadigol. Mae'n rhaid i bob gwasanaeth y byddwn yn ei gomisiynu osgoi ailadrodd gwaith, a lleihau galw ar wasanaethau statudol.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

4. Contractio a llwybrau caffael

Mae'r rhan fwyaf o'r gofal a'r gefnogaeth i oedolion yn cael eu darparu gan y sector annibynnol a'r trydydd sector. Yn unol â'n Strategaeth Trydydd Sector, mae rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n cyflawni ein blaenoriaethau wedi'u hariannu gan grantiau, neu eu hysgogi, gyda'r bwriad o allu cynnal eu hunain. Rydym hefyd yn defnyddio amrywiaeth o lwybrau caffael (yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Contractau), gan gynnwys:

- **Mae gofyn i ddarparwyr Gofal Cartref** gael eu derbyn ar Fframwaith Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru, sy'n agor i geisiadau newydd o bryd i'w gilydd. Mae system broceriaeth gofal ar waith, i sicrhau bod pecynnau gofal unigol yn cael eu dyfarnu i'r darparwr sy'n cyfateb orau.
- **Mae'n ofynnol i Gartrefi Gofal** lofnodi cytundeb cyn-lleoli gyda Chyngor Sir Ddinbych (a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lle bo'n briodol).
- **Fel arfer, caiff pecynnau cymorth Cynllun Byw yn y Gymuned** eu tendro allan. Bydd darparwyr sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer cyfleoedd ar Fframwaith Rhanbarthol eisoes, a chaiff cyfleoedd eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru wrth iddynt godi.
- **Mae Gwasanaethau Dydd i bobl hŷn ac oedolion â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau** yn cael eu comisiynu yn unigol.
- **Mae llwybrau caffael Gwasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith i unigolion ag anabledd dysgu** yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn hir.

Taliadau uniongyrchol / cyllidebau cefnogaeth

Mae cyllidebau cefnogaeth yn rhan o'n dull strategol o bersonoli. Mae nifer o ffyrdd i ddinasyddion gael mynediad i'w cyllideb gefnogaeth, gan gynnwys taliad uniongyrchol, cyllideb gefnogaeth a gaiff ei rheoli gan drydydd parti neu'r Awdurdod Lleol, neu gyfuniad o'r dair ffordd. Mae galw am Taliadau Uniongyrchol yn cynyddu ac yn 2021 – 2024, rydym yn gobeithio gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl sy'n manteisio arnynt.

Byddwn yn parhau i annog a hwyluso datblygiad pellach ac annog mwy o bobl i fanteisio ar daliadau uniongyrchol.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno cardiau wedi'u talu o flaen llaw er mwyn helpu unigolion, teuluoedd, gofalwyr a darparwyr i oresgyn rhai o'r rhwystrau. Rydym yn annog darparwyr presennol a phosibl i ystyried y ffordd orau o gefnogi ac ymateb i anghenion pobl sy'n caffael eu gwasanaethau eu hunain.

Mesur Ansawdd

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, sy'n ategu'r broses adolygu contractau. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddulliau gweithredu ac adnoddau i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed yn hyn o beth, gan gynnwys holiadur 'Dweud eich dweud', a dadansoddiad manwl o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolyn bob blwyddyn yn y gwasanaethau Anabledau Cymhleth.

5. Negeseuon allweddol maes gwasanaeth a bwriadau comisiynu

5.1 Pobl hŷn a phobl 18 oed a hŷn gyda nam corfforol neu nam ar y synhwyrau

Mae gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol weledigaeth strategol glir ynghylch cefnogi annibyniaeth, dewis a rheolaeth. Bydd ein canolbwynt ar ddulliau ymyrraeth gynnar, atal ac ailalluogi yn cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth; ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu, a lleihau'r risg o gam-drin neu gamfanteisio.

Mae nifer o wahanol feysydd gwasanaeth lle rydym ni'n comisiynu a darparu gofal a chymorth i bobl hŷn a phobl 18 oed a hŷn sydd â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau:

5.1.1 Gofal cartref, gan gynnwys gwaith cefnogi a gofal cartref arbenigol

Y sefyllfa bresennol

- Mae'r rhan fwyaf o ofal cartref yn Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu trwy'r sector annibynnol a'r trydydd sector.
- Cyn comisiynu unrhyw becyn gofal, byddwn yn archwilio'r posibilrwydd am gyfnod o ail-alluogi (a ddarperir yn fewnol fel arfer) i benderfynu pa gymorth sydd ei angen i

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

gynnal annibyniaeth yr unigolyn a'u helpu i gyrraedd eu nodau. Caiff gofal mwy hirdymor ei roi ar waith dim ond pan fo asesiad wedi dangos bod hynny'n angenrheidiol, a bydd hyn yn aml pan fo achosion yn fwy cymhleth. Bydd darpariaeth mwy hirdymor o'r fath yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

- Mae darpariaeth gofal cartref wedi gostwng ers 2016. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol ac yn rhan o'n bwriad strategol i gefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol heb gymorth rheoledig e.e. trwy ddarparu gwasanaethau ail-alluogi a theleofal/technoleg gynorthwyol arall.
- Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod galw yn fwy na'r capasiti hefyd. Mae'r nifer o oriau o ofal cartref a ddarperir i unigolion 65 oed a hŷn wedi cynyddu. Mae daearyddiaeth wledig Sir Ddinbych yn cyflwyno ei heriau ei hun hefyd, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r anawsterau sy'n cael eu profi wrth recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref.
- Mae Broceriaid Gofal yn ei chael yn anodd dod o hyd i asiantaethau addas i ddiwallu'r anghenion gofal a nodwyd yn bennaf yn ne'r sir, yn enwedig mewn rhannau mwy gwledig (yn gyffredinol o Ruthun ac ymhellach i'r de). Fodd bynnag, mae rhai problemau wedi bod â chael gofal cartref mewn ardaloedd eraill fel Bodelwyddan, Bodfari, Dinbych a Llanelwy.
- Mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn Sir Ddinbych yn profi problemau â'r cof na fyddant i gyd wedi cael diagnosis o ddementia. Rhwng 2017 a 2025, rhagwelir cynnydd o 25.6% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn â dementia (ffynhonnell: Daffodil Cymru). Mae hefyd nifer bychan o oedolion rhwng 30 a 64 oed yn profi dechrau dementia.
- I'r mwyafrif o unigolion â dementia ysgafn i gymedrol ac amrywiaeth o anghenion cymorth iechyd meddwl eraill, mae Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu gwasanaeth (yn seiliedig yn y timau Adnoddau Cymunedol amlasiantaeth) sy'n canolbwyntio ar alluogi unigolion a'u gofalwyr i ymgysylltu â'u cymunedau a chanfod cyfleoedd i wella lles.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn gofal cartref

- Fel Awdurdod Lleol, mae'n rhaid i ni barhau i weithio tuag at gomisiynu darpariaeth gofal cartref unigol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (yn hytrach nag "amser a thasg").

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mae angen i bob darparwr gofal cartref weithio'n greadigol ac ar y cyd â ni i fodloni cynnydd o ran galw, yn enwedig ar gyfer ein hachosion mwy cymhleth. Rydym yn arbennig o awyddus i weithio gyda darparwyr sydd â chanolbwynt cryf ar ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac sy'n croesawu'r ethos ailalluogi.
- Rydym am i ragor o unigolion gael budd o'r cyfleoedd am ragor o ddewis a rheolaeth y gall cyllidebau cefnogaeth eu cynnig.
- Mae angen i ni weithio gyda darparwyr gofal cartref i greu cyfleoedd gwell ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr gofal.
- Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar ddull gweithredu systemau cyfan rhanbarthol o ran gofal cartref, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, lles a datblygiad y gweithlu, cynaliadwyedd sefydliadol, ac archwilio modelau comisiynu gwahanol.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda BIPBC hefyd i ddatblygu mwy o amrywiaeth o ofal a chymorth mewn rhai ardaloedd mwy gwledig o'r sir.
- Rydym am beilota gwasanaeth ar gyfer hyd at dri o bobl ar y tro, gyda lefelau cymedrol i ddatblygedig o ddementia, i gael cymorth yng nghartref y gweithiwr gofal ei hun - gan roi cyfleoedd i'r rhai sy'n byw gyda dementia gynnal eu sgiliau gyhyd ag sy'n bosibl, wrth roi seibiant pwrpasol, wedi'i deilwra, i'w gofalwyr.
- Rydym am weld rhagor o gymunedau'n gweithio tuag at fod yn gymunedau sy'n deall Dementia, a byddwn yn parhau i weithio tuag at fod yn gyflogwr sy'n deall dementia.

5.1.2 Gwasanaethau / gweithgareddau dydd

Y sefyllfa bresennol

- Yn Sir Ddinbych, mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau / gweithgareddau dydd, a dau sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol. Mae rhai yn arbenigo mewn gweithgareddau penodol neu fathau o gymorth i bobl ag anghenion cymorth penodol.
- Gan mwyaf, nid ydynt yn gallu darparu gwasanaeth i'r rhai sydd angen unrhyw ofal personol, gan gyfyngu ar fynediad i rai unigolion sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae darpariaeth arbenigol gyfyngedig o weithgareddau dydd i oedolion sydd â nam corfforol/nam ar y synhwyrâu hefyd ac i bobl iau â dementia cynnar.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Rydym yn gwybod, yn gyffredinol, bod pobl am gadw eu hannibyniaeth a chysylltiadau cymunedol yn hytrach na chael canolfannau arbenigol.
- Rydym yn rhagweld y bydd angen gwasanaethau dydd bob amser, ond y bydd angen ailfodelu a moderneiddio'r gwasanaethau hyn. Mae'n rhaid i ddarpariaeth gwasanaethau dydd fod yn rhan o'n dull ehangach o gymorth lles, atal ac ymyrraeth gynnar.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn gwasanaethau dydd

- Mae'n rhaid i ni barhau i ailfodelu a moderneiddio gwasanaethau dydd traddodiadol, gan ail-ganolbwyntio ar gymorth sy'n seiliedig yn y gymuned sy'n cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i unigolion ag anghenion amrywiol - yn nes at adref, ac mewn amgylchedd sy'n ffafriol i les gwell, gyda chyfleusterau o ansawdd da.
- Rydym yn chwilio am fodel darparu a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gydag ethos ail-alluogi; sy'n cynnig gweithgareddau ystyrlon, a chanolbwynt yn y pendraw ar les, unigolrwydd, dewis, urddas a chryfderau pob dinesydd. Dylai hyn gynnwys hyrwyddo cymryd risgiau mewn modd cadarnhaol, a defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo'n bosibl.
- Byddwn yn ystyried comisiynu gwasanaethau dydd penodol ar gyfer unigolion sydd â lefelau cymedrol i uchel o ddementia a allai fod ag anghenion gofal personol, a byddem yn croesawu trafodaeth gyda darparwyr sydd â phrofiad o ddarparu'r math hwn o gymorth.
- Caiff gwasanaeth dydd yn Ninbych a gaiff ei redeg gan yr Awdurdod Lleol ei adolygu, gan gyfeirio at y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ehangach sydd yn Ninbych a'r ardaloedd cyfagos.
- Byddwn ni'n annog unigolion i fod â mwy o ddewis a rheolaeth trwy brynu eu cymorth gwasanaeth dydd eu hunain gan ddefnyddio cyllideb gefnogaeth.
- Byddwn am geisio datblygu'r dull gweithiwr cefnogi ymhellach i bobl â dementia sy'n byw adref heb ofalwr, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r math hwn o ddull ar gyfer pobl â nam corfforol/nam ar y synhwyrau, a allai gael ei ariannu trwy daliad uniongyrchol o bosibl.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad

Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Byddwn ni'n parhau i weithio gyda chymunedau a gwasanaethau i sicrhau bod modd i bobl gael mynediad i ragor o gymorth yn y gymuned, gan leihau'r angen am wasanaethau mwy ffurfiol.

5.1.3 Seibiant Tymor Byr

Y sefyllfa bresennol

- Mae seibiannau tymor byr yn digwydd pan fydd unigolyn yn symud i gartref gofal/ amgylchedd gofal ychwanegol dros dro ar ôl bod yn yr ysbyty/bod â salwch tymor byr, a phan fydd angen cymorth ychwanegol arnynt wrth i'w hiechyd wella. Yn aml, caiff hyn ei ariannu trwy daliad uniongyrchol/cyllideb gefnogaeth.
- Bydd gan bob unigolyn gynllun cymorth, ac mae'r un ethos yn parhau, sef fod rhaid cynnal/cynyddu annibyniaeth.
- Fodd bynnag, mae'r ystadegau'n dangos bod y posibilrwydd y bydd unigolyn yn dychwelyd i'w cartref eu hunain yn lleihau'n sylweddol ar ôl iddynt gael eu derbyn i gartref gofal am gymorth tymor byr (ar wahân i seibiant i ofalwr).

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer seibiannau tymor byr

- Mae'n rhaid i ni barhau i wella fel mae cynlluniau cymorth seibiannau tymor byr yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Mae'n rhaid i ni ymchwilio i'r rhesymau pam mae'r posibilrwydd y bydd unigolyn yn dychwelyd adref yn cael ei leihau ar ôl cael eu derbyn i gartref gofal am seibiant byr, a datblygu gwasanaethau newydd/ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r duedd hon

5.1.4 Cartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio

Y sefyllfa bresennol

- Mae mwy na mil pedwar cant o welyau cartref gofal ar draws y sir (mae'r mwyafrif yn y gogledd). Mae pedwar wedi'u cofrestru i ddarparu gofal nyrsio a gofal preswyl ac mae saith wedi'u cofrestru i ddarparu gofal preswyl sylfaenol yn ogystal â gofal preswyl IMH.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mae'n ofynnol i bob cartref gofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA), a bydd yn orfodol i weithwyr cartrefi gofal gofrestru o 2022.
- Mae mwy na 90% o leoliadau cartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u comisiynu gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych yn cael eu darparu'n allanol.
- Mae gennym ddau gartref gofal mewnol, ac rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer y ddau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda BIPBC i edrych ar ddyfodol cartref gofal Dolwen, yn dilyn diffyg diddordeb gan y farchnad yn ystod ymarfer tendro diweddar. Byddwn ni'n ymestyn y gwasanaethau a gynigir o'n cartref gofal yng Nghorwen i gefnogi pobl yn y gymuned gyfagos, ac rydym yn ystyried ymestyn yr adeilad i ddarparu rhandai byw â chymorth hefyd.
- Mae llawer o gartrefi gofal yn darparu modelau gofal traddodiadol gydag ychydig o weithgareddau. Mae amrywiaeth sylweddol o ran ansawdd gwasanaethau gofal mewn cartrefi gofal hefyd.
- Mae data'n dangos ein bod yn cefnogi pobl yn llwyddiannus i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Er bod galw presennol yn dal i fod yn gyson, mae'r galw a'r angen am ofal preswyl safonol yn Sir Ddinbych yn parhau i leihau bob blwyddyn.
- Ar yr un pryd, rydym yn gwybod bod galw am gartrefi gofal arbenigol (nyrsio/IMH) yn parhau i gynyddu. Mae nifer uchel o bobl hŷn â phroblemau â'u cof a dementia yn Sir Ddinbych, ac mae hyn yn rhoi straen ar nifer y lleoedd sydd ar gael yn y cartrefi gofal hynny eisoes. Mae rhagolygon yn awgrymu y bydd y galw hwn yn parhau i gynyddu, ac mae'n debygol y bydd angen i nifer y gwelyau preswyl a nyrsio IMH gynyddu.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn cartrefi gofal

- Byddwn ni'n cyflwyno cais, fel blaenoriaeth uchel, am hyfforddiant penodol i gynorthwyo darparwyr cartrefi gofal i gynnig mwy o wasanaethau arbenigol fel gofal IMH.
- Mae'n rhaid i ni foderneiddio gofal a chymorth mewn cartrefi, gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'u cynnwys (gyda choel ar hanes bywyd unigolyn i lywio'r rhain, a chynnwys teulu a ffrindiau yn y broses lle bo'n briodol), defnyddio technoleg gynorthwyol, cymryd risgiau cadarnhaol, a rhoi canolbwynt ar gynnal sgiliau a gallu.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Yn y pen draw, rydym am gyflawni modelau gofal a fydd yn canolbwyntio ar nodau, lles, unigolrwydd, dewis, urddas a chryfderau pob dinesydd.
- Rydym am weld gweithgareddau ystyrlon ac amrywiol ar gael i breswylwyr, mewn amgylchedd sy'n ffafriol i well lles, gyda chyfleusterau o ansawdd da. Rydym hefyd am i rai cartrefi gofal allu darparu gwasanaethau dydd o safon i'r bobl sydd angen cymorth gyda'u hanghenion gofal personol.
- Mae'n rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar recriwtio a hyfforddiant, gan sicrhau timau staff medrus a phositif, gyda dealltwriaeth o beth sy'n bwysig i'r unigolion y maen nhw'n eu cefnogi, a gyda rheolwyr sy'n ysbrydoli.
- Rydym hefyd am archwilio opsiynau ar gyfer cyfleusterau 'camu i fyny' a 'chamu i lawr' i helpu pobl i adennill hyder ac annibyniaeth, gan eu galluogi i ddychwelyd i'w cartref eu hunain.

5.1.5 Tai gofal ychwanegol

Y sefyllfa bresennol

- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn datblygu strategaeth i ddarparu tai gofal ychwanegol i ddiwallu anghenion newidiol a chynyddu'r amrywiaeth o ddarpariaeth. Mae'r ffactorau sy'n sbarduno newid yn cynnwys newid disgwyliaadau, cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn ag anghenion cymorth lefel uwch, a chanolbwynt ar adsefydlu ac annibyniaeth.
- Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Sir Ddinbych dri chyfleuster Tai Gofal Ychwanegol, a ddarperir mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai – ac mae rhestrau aros ar gyfer pob un ohonynt.
- Mae ymrwymiad corfforaethol i ddatblygu tri chynllun Tai Gofal Ychwanegol pellach. Rydym wedi prynu safle yn Ninbych ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Cynefin (yn dilyn ymarfer tendro), i gyflwyno cynllun ar y safle.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn tai gofal ychwanegol

- Byddwn yn parhau i weithio i gwmpasu safleoedd addas ar gyfer y ddau ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol pellach, ac rydym yn mynd ati i geisio trefniadau partneriaeth. Bydd capasiti rheoli prosiectau, adnoddau, gweithio mewn partneriaeth a hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth yn allweddol i ddarparu'r ymrwymiad hwn.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Cynefin i ddatblygu'r cynllun saithdeg pedwar uned yn Ninbych, ac rydym yn disgwyl i'r gwaith adeiladu hwnnw gael ei gwblhau yn 2021.
- Byddwn hefyd yn ymestyn y cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol presennol yn Llys Awelon yn Rhuthun, mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin. Bydd trideg chwech o unedau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth bresennol yma, gydag un uned wedi'i chadw ar gyfer darpariaethau seibiant ac ailalluogi.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn paratoi cynlluniau ar gyfer tai â chymorth gyda mynediad i ddarpariaethau iechyd yng Nghorwen hefyd, ac rydym yn edrych ar opsiynau partneriaeth a chyllid ar gyfer datblygiad o'r fath.

5.1.6 Cymorth arbenigol ar gyfer nam ar y synhwyrâu

Y sefyllfa bresennol

- Rydym yn gweithio'n agos gyda BIPBC a gydag amrywiaeth o ddarparwyr y sector gwirfoddol sy'n darparu cymorth arbenigol i'r rhai y mae nam ar y synhwyrâu yn effeithio arnynt.
- Ar hyn o bryd, mae gennym gyllid grant/trefniadau comisiynu ar waith gyda'r Ganolfan Arwyddo Golwg Sain, Sense a Vision Support, i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth.
- Mae ein Storfeydd yn darparu datrysiadau digidol hefyd i gefnogi unigolion sydd â nam ar y synhwyrâu i gyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer cymorth arbenigol ar gyfer nam ar y synhwyrâu

- Rydym yn ceisio gwella ein cynnig yn gorfforaethol i'r bobl sy'n dibynnu ar wahanol ddulliau cyfathrebu oherwydd bod ganddynt nam ar y synhwyrâu.
- Byddwn ni'n parhau i weithio i wella'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'r bobl sy'n defnyddio systemau cyfathrebu fel braille, Makaton, Iaith Arwyddion Prydain neu arweinwyr cyfathrebu.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.1.7 Eiriolaeth

Y sefyllfa bresennol

- Bu cynnydd o ran cydnabyddiaeth o rôl eiriolaeth mewn diogelu hawliau pobl a hyrwyddo dewis a rheolaeth dros eu bywydau.
- Ar hyn o bryd, rydym yn ariannu Dewis CIL i ddarparu eiriolaeth ar gyfer unigolion 18-64 oed a allai fod ag anabledd corfforol, sydd wedi cael niwed i'r ymennydd, sydd â nam ar y synhwyrau, problemau iechyd meddwl neu sy'n ofalwyr.
- Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, byddwn yn comisiynu gwasanaethau eirioli un i un ar y cyd gan Dewis CIL ar gyfer pobl 65 oed a hŷn hefyd.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn a phobl 18 oed a hŷn gyda nam corfforol neu nam ar y synhwyrau

- Bydd y gwasanaethau allweddol hyn yn parhau i gael eu darparu, a byddwn yn parhau i fonitro galw ac anghenion newidiol.

5.2 Oedolion ag anableddau cymhleth

Mae'n rhaid i ni barhau i newid y ffordd rydym ni'n gweithio i gefnogi oedolion ag anableddau cymhleth, gan ymateb i anghenion newidiol, deddfwriaeth, a phwysau o ran cefnogi niferoedd cynyddol o bobl, gyda llai o gyllid i wneud hynny. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymrwymedig i ddilyn dull gweithredu galluogol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gynnydd, sy'n gwneud y defnydd gorau o asedau a gallu pobl – gan ddarparu neu drefnu gwasanaethau ffurfiol/mwy hirdymor dim ond pan fo wirioneddol angen.

Mae'n rhaid i'r canolbwynt fod ar gefnogi pobl i adeiladu ar eu cryfderau a'u gallu i nodi datrysiadau unigol, adeiladu rhwydweithiau cefnogi newydd, a chysylltu pobl â'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae nifer o wahanol feysydd gwasanaeth lle rydym ni'n comisiynu a darparu gofal a chymorth i oedolion sydd ag anableddau cymhleth:

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.2.1 Gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith

Y sefyllfa bresennol

- Mae gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith yn darparu cymorth yn ystod yr wythnos waith sy'n canolbwyntio ar weithgareddau ystyrlon, fel arfer mewn amgylchedd gwaith. Mae'r rhain yn cael eu darparu'n fewnol, a'u comisiynu trwy ddarparwyr annibynnol (gan gynnwys mentrau cymdeithasol).
- Caiff taliadau uniongyrchol eu cynnig i unigolion i brynu eu cymorth cyfleoedd dydd/gwaith eu hunain hefyd. Mae defnyddio taliadau uniongyrchol yn rhan glir o'n cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau dydd, ac rydym yn awyddus iawn i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cefnogaeth hunangyfeiriedig yn y maes hwn.
- Mae tua 215 o bobl yn cael eu cefnogi mewn lleoliadau gwasanaethau dydd neu gyfleoedd gwaith a ddarperir neu a gomisiynir. Mae 48% o'r rhain yn fewnol, caiff 34% eu cefnogi gan ddarparwyr allanol, ac mae 16% mewn lleoliadau nad ydynt yn canolbwyntio ar waith. Mae bron i chwarter (24%) holl fynychwyr y lleoliadau busnes mewnol yn 50 oed neu'n hŷn.
- Gall yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael fod yn gyfyngedig, yn enwedig yn Ne'r Sir, lle mae'r boblogaeth yn llai dwys.
- Weithiau, mae canolbwynt cyfyngedig ar ddatblygiad sgiliau a chynnydd, yn sicr gan gynnwys cynnydd i gyflogaeth am dâl 'go iawn', lle rydym yn gweld galw cynyddol gan bobl iau yn arbennig.
- Er bod cymorth arbenigol ar gyfer canfod swyddi/cyflogadwyedd ar gael i bobl ag anableddau dysgu, yn ogystal â gwasanaeth Sir Ddinbych yn Gweithio ledled y boblogaeth, mae nifer yr oedolion ag anableddau dysgu (sy'n hysbys i ni) sydd â swydd gyflogedig yn hynod o isel. Yn anffodus, mae hyn yn adlewyrchiad o'r darlun cenedlaethol.
- Gall fod yn anodd dod o hyd i weithgareddau addas a phriodol ar gyfer pobl ag awtistiaeth gweithrediad uchel – mae hon yn broblem ar draws y sir gyfan.
- Mae rhai o'r lleoliadau busnes cyfleoedd gwaith mewnol presennol yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw newidiol, a lefelau cyfyngedig o ran ymreolaeth a chyfleoedd am grantiau a chyllid allanol. Yn dilyn adolygiad manwl diweddar, mae gwaith yn mynd rhagddo i ailedrych ar y gwasanaethau hyn, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn cael eu moderneiddio a'u cynnal.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mae'r model menter gymdeithasol wedi gweithio'n dda i oedolion ag anableddau dysgu yng ngogledd Sir Ddinbych. Rydym yn comisiynu amrywiaeth dda o weithgareddau gyda'r mentrau cymdeithasol ar bris cystadleuol.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith

- Yn y pen draw, rydym am weld cyfleoedd dydd/gwaith sy'n gweithio mewn ffordd hyblyg sy'n canolbwyntio ar unigolion; sy'n canolbwyntio ar gynnydd unigol (a allai gynnwys symud ymlaen at waith am dâl), adeiladu sgiliau, cymryd rhan weithredol mewn cymunedau lleol – ac sy'n darparu gweithgareddau amrywiol ac ymgysylltiol, sy'n addas i bobl ag amrywiaeth o anghenion a dyheadau.
- Hoffem weld canolbwynt ar ddatblygu a chefnogi cyfleoedd am waith am dâl. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu rhaglenni arddull interniaeth, e.e. Prosiect SEARCH.
- Rydym hefyd am weld amrywiaeth fwy eang o weithgareddau ar gael i'r bobl sy'n byw yn Ne'r sir yn arbennig; y rhai sy'n ei chael yn anodd mewn lleoliad sy'n canolbwyntio ar waith, ac i bobl sy'n nesáu at oedran ymddeol.
- Byddwn yn parhau i gynnig a hyrwyddo taliadau uniongyrchol i alluogi pobl i gaffael eu cefnogaeth eu hunain, a byddwn yn monitro'r effaith ar ddarparwyr. Rydym yn annog darparwyr presennol a phosibl i ystyried y ffordd orau o ragweld, cefnogi ac ymateb i anghenion pobl sy'n caffael eu gwasanaethau eu hunain.
- Byddwn yn annog partneriaethau a/neu fentrau cymdeithasol newydd, a byddwn yn cefnogi ceisiadau am gyllid allanol lle mae'r rhain yn cyd-fynd ag anghenion a dyheadau unigolion a'r dull a amlinellir uchod.
- Hoffem weld model menter gymdeithasol yn cael ei ddatblygu ymhellach, yn enwedig mentrau bach mewn ardaloedd gwledig, a datblygiad cysyniadau newydd ac arloesol. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar drefnu dau o'n gwasanaethau mewnol drwy gontract allanol, sy'n addas ar gyfer model o'r fath, yn ein barn ni.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.2.2 Llety â chymorth

Y sefyllfa bresennol

- Er bod nifer cymharol uchel o bobl ag anableddau cymhleth yn parhau i fyw yn y cartref teuluol, mae nifer gynyddol eisiau (ac angen) byw'n annibynnol.
- Yr ethos sy'n ategu llety â chymorth yw un sy'n hyrwyddo annibyniaeth, hawliau, lles a chynnydd unigol.
- Mae'r rhan fwyaf o lety â chymorth yn Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol, gyda rhan fach yn cael ei ddarparu'n fewnol a gan y trydydd sector. Mae'r sector yn gymysgedd o sefydliadau bach a mawr, lleol a chenedlaethol, a rhai ohonynt yn sefydliadau nid-er-elw.
- Yn Sir Ddinbych, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw mewn llety â chymorth yn byw naill ai mewn cartref gofal neu mewn cynllun byw yn y gymuned ar hyn o bryd.
- Yn ddiweddar, rydym wedi contractio ein gwasanaeth Rhannu Bywydau gydag Awdurdod cyfagos. Rhagwelir na chaiff y contract hwn ei aildendro tan 2030.
- Er mai byw yn y gymuned yw'r model tai a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o oedolion ag anableddau dysgu, nid yw hwn yn ddull sy'n addas i bawb. Mae'n rhaid i ni gydnabod y gall anghenion a dewisiadau pobl newid, a'u bod yn newid – a gall, a dylai, tenantiaid symud ymlaen lle bo'n briodol. Gallai hyn gynnwys adolygu anghenion pobl o ran tai i sicrhau bod lefel y gefnogaeth, y math o dai a'r lleoliad yn dal i fod yn iawn iddyn nhw.
- Byddwn ni'n adolygu anghenion pobl o ran tai yn rheolaidd gan ddefnyddio dull symud ymlaen. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion wrth wraidd cynllunio gweithredol a chynllunio strategol, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn – gyda chyfarfodydd amlddisgyblaethol misol a dull gweithredu tîm o ran mapio ac ymateb i anghenion newidiol, a datblygu dewisiadau tai newydd.
- Mae'r mwyafrif o leoliadau cartrefi gofal yn fesurau dros dro nes bydd tenantiaeth addas wedi'i sicrhau; fodd bynnag, mae nifer o bobl hyn yn dal i fyw mewn cartrefi gofal yn dilyn lleoliadau hanesyddol, yn rhannol fel etifeddiaeth o gau Ysbyty Gogledd Cymru (ni fyddai symud yr unigolion hyn yn ddichonadwy nac er lles gorau'r unigolion hyn nawr).

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad

Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mewn lleoliadau byw yn y gymuned, bydd pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tŷ a rennir, gyda chefnogaeth am dâl wedi'i darparu gan asiantaeth gofal cartref gofrestredig (trwy gcontractau sy'n amodol ar brosesau tendro). Mae'n rhaid i bob cynllun llety â chymorth newydd 'hunan ariannu', o ran bod rhaid i gyfanswm cost y gwasanaeth cefnogi fod gyfwerth neu lai na chost bresennol neu gost a ragwelir darparu cefnogaeth ar gyfer yr unigolion a nodwyd.
- Yn Sir Ddinbych, ni chaiff y gwasanaeth cymorth ei ddarparu gan y landlord (ac nid yw'n gysylltiedig â'r landlord). Caiff gwasanaethau cymorth ar gyfer pob cynllun byw yn y gymuned newydd eu comisiynu trwy broses dendro a gytunwyd. Mae'r gwahaniaeth rhwng y landlord a'r darparwr cefnogaeth yn elfen bwysig o'n dull gweithredu – dylai unrhyw landlord neu ddarparwr posibl gysylltu â ni cyn gwneud unrhyw fuddsoddiadau neu benderfyniadau busnes, fel bod modd i ni egluro'r dull gweithredu hwn yn fanwl.
- Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn ail-dendro gwasanaethau Byw yn y Gymuned, ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer model posibl sy'n seiliedig ar glystyrau o ran caffael a darparu.
- Rydym wedi datblygu model tai sy'n galluogi pobl i gyfuno taliadau uniongyrchol i gaffael cefnogaeth unigol mewn tŷ a rennir.
- Rydym wedi datblygu canllaw staff tai â chymorth, er mwyn gwella'r broses ar gyfer unigolion, eu teuluoedd a'r staff. Bydd hyn yn osgoi oedi a gwagleoedd mewn lleoliadau byw yn y gymuned, gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ariannol, a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydweddoldeb tenantiaid bob amser.
- Er mwyn ein galluogi i ymateb i alw mewn modd strategol, rydym yn cynnal cofnod manwl o ddata anghenion o ran tai. Mae'r data hwn ar hyn o bryd yn dweud wrthym:
 - Byddai'n well gan tua hanner yr unigolion fyw yng ngogledd y Sir
 - Mae mwy na hanner y bobl wedi'u nodi fel rhai sydd angen tai o fath byw yn y gymuned (gydag angen am gefnogaeth amrywiol)
 - Mae galw am fodel llety â chymorth sy'n llai dwys o ran staff na chynlluniau byw yn y gymuned presennol. Mae tua chwarter o unigolion wedi'u nodi fel bod angen 'KeyRing plus' (h.y. mwy na KeyRing, ond llai na darpariaeth Byw yn y Gymuned presennol). Yr enw ar y model hwn yw 'cefnogaeth a rennir ar stepen eich drws'.
 - Mae rhai pobl angen neu am fyw ar eu pennau eu hunain, ond gallent rannu cefnogaeth.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu mewn llety â chymorth

- Byddwn ni'n parhau i gaffael gwasanaethau cynnal mewn lleoliadau byw yn y gymuned trwy fframwaith Cytundeb Byw â Chymorth Gogledd Cymru.
- Bydd mwy o ganolbwynt ar ganlyniadau o hyd (yn hytrach nag allbynnau) – caiff hyn ei adlewyrchu yn y manylebau gwasanaeth ar gyfer cynlluniau byw yn y gymuned newydd.
- Byddwn yn hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd o ran llety â chymorth (e.e. trwy sefydlu cymelliadau a gytunwyd ar gyfer darparwyr, ar sail fesul achos).
- Byddwn ni'n datblygu cymelliadau ariannol ar gyfer arloesedd.
- Byddwn ni'n parhau i edrych ar sut gall cronni taliadau uniongyrchol weithio gyda chymorth a rennir.
- Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Tai Sir Ddinbych a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu tai addas, seiliedig ar denantiaethau, i ddiwallu anghenion a nodwyd (gan gynnwys 'prif ganolfan a lloerennau', 'cefnogaeth a rennir ar stepen eich drws', gofal ychwanegol a modelau a gefnogir gan dechnoleg gynorthwyol/teleofal).
- Byddwn ni'n parhau i symud oddi wrth leoliadau cartref gofal parhaol, oni bai mai dyma sydd ei eisiau ar yr unigolyn a'u teulu, ac mai dyma'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion.
- Byddwn ni'n hyrwyddo Rhannu Bywydau (Lleoliadau Oedolion) fel dewis o ran tai.
- Dros y 2 flynedd nesaf, byddwn ni'n ail-dendro gwasanaethau cynnal byw yn y gymuned sydd wedi dod i ben, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.
- Byddwn ni'n defnyddio'r fframwaith byw â chymorth rhanbarthol ar gyfer pob contract yn y dyfodol.
- Mae iaith a diwylliant Sir Ddinbych yn bwysig – i rai dinasyddion, Cymraeg yw ei hiaith gyntaf a/neu eu dewis iaith. Byddwn ni'n comisiynu gwasanaethau sy'n gallu cefnogi pobl yn eu dewis iaith, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r diwylliant a'r iaith leol.

5.2.3 Cymorth gartref (wedi'i reoleiddio a heb ei reoleiddio)

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Y sefyllfa bresennol

- TMae'r boblogaeth sy'n heneiddio'n golygu y bydd pobl ag anableddau dysgu angen gofal a chefnogaeth wrth fynd yn hŷn.
- Yr ethos sy'n ategu'r ddarpariaeth hon yw un sy'n cefnogi annibyniaeth, lles, cynnydd unigol a lleihau'r galw am wasanaethau statudol mwy hirdymor lle bynnag bo'n bosibl. Mae'n rhaid i ofal cartref a chymorth gwaith prosiect ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau hefyd.
- Caiff pob gofal cartref sydd wedi'i brynu yn y fan ar gyfer oedolion ag anableddau cymhleth eu caffael trwy'r trydydd sector a'r sector preifat trwy system broceriaeth gofal (ar wahân i mewn lleoliadau byw yn y gymuned). Caiff cyfraddau fesul awr eu penderfynu pan fydd darparwr yn gwneud cais a phan fydd wedi'i dderbyn i'r cytundeb fframwaith (tra bod cyfraddau mewn lleoliadau byw yn y gymuned yn cael eu cytuno fel rhan o'r broses dendro).
- Mae pedwardeg un o asiantaethau ar fframwaith Sir Ddinbych a allai ddarparu cymorth i oedolion ag anableddau dysgu; fodd bynnag, ni fyddai gan bob un y sgiliau i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu o reidrwydd, nac yn dewis gwneud hynny.
- Mae mwy na hanner y bobl ag anableddau cymhleth rydym yn eu cefnogi yn byw yng ngogledd y sir.
- Mae'r bylchau hyn o ran darpariaeth yn ymwneud ag argaeledd yr asiantaethau, yn hytrach na'r mathau o anghenion maen nhw'n eu cefnogi.
- Mae galw am staff gofal cartref Cymraeg eu hiaith, yn enwedig yn ne'r sir. Er bod niferoedd yn isel, rydym yn gwybod bod hyn yn bwysig i'r unigolion hyn a'u teuluoedd. Rydym yn gwybod bod asiantaethau'n aml yn cael trafferth recriwtio staff Cymraeg eu hiaith.
- Rydym yn hwyluso cyfarfodydd gyda darparwyr gofal cartref i bobl ag anableddau cymhleth, ac mae cynrychiolaeth dda yn y cyfarfodydd hyn gan ddarparwyr, lechyd, a Thîm Anableddau Cymhleth Sir Ddinbych. Maen nhw'n darparu cyfle i gynrychiolwyr gyfnewid gwybodaeth a diweddariadau.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer cymorth gartref (wedi'i reoleiddio a heb ei reoleiddio)

- Byddwn ni'n parhau i groesawu arloesedd a syniadau newydd. Gyda chyllid cyfyngedig ar gael i ysgogi mentrau i leihau galw hirdymor ar wasanaethau statudol, rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ddarparwyr sydd â chynigion creadigol a fyddai'n lleihau galw hirdymor ar wasanaethau statudol a chyflawni canlyniadau gwell i unigolion.
- Byddwn ni'n sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, nid allbynnau.
- Byddwn ni'n hyrwyddo cysyniad cyfnewid sgiliau, e.e. bancio amser.
- Rydym am weld mwy o ddefnydd mwy creadigol o dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- Byddwn ni'n annog mwy o ddefnydd o rwydweithiau anffurfiol ac adnoddau dinasyddion.
- Byddwn ni'n canolbwyntio ar gynnydd a mewnbwn, lle bo hynny'n ddichonadwy a phriodol – gyda chymorth wedi'i dapro wedi'i gytuno rhwng yr unigolion a'r bobl sy'n eu cefnogi.
- Rydym ni'n bwriadu parhau â'r cyfarfodydd bob chwarter â darparwyr fel dull o ddarparu gwybodaeth i ddarparwyr a darparu cyfle i drafod pryderon a datblygiadau.

5.2.4 Seibiant

Sylwch: Defnyddir y term seibiant yma i olygu cymorth dros nos neu gymorth tymor byr a ddarperir yn rhywle heblaw cartref y teulu, gyda bwriad o roi seibiant i'r teulu/gofalwr – cyfeirir at ragor o fanylion a mathau eraill o seibiant i ofalwyr dan bennod 5.3: Cymorth i Ofalwyr.

Y sefyllfa bresennol

- Ar hyn o bryd, mae gennym drefniant gyda chartref gofal bach sy'n darparu seibiant dros nos. Caiff hyn ei adolygu yn y dyfodol.
- Rydym ni'n darparu lleoliadau seibiant yn y ddau gartref gofal a gaiff eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad

Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mae gennym ddarpariaeth seibiant yn ein Tai Gofal Ychwanegol.
- Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cynllun peilot ar gyfer osgoi arhosiad ysbyty / seibiant mewn partneriaeth â'n cynlluniau Tai Gwarchod. Bydd hyn yn sicrhau bod unedau llety yn Rhuthun a Chorwen ar gael ar gyfer ymyriadau cefnogaeth tymor byr. Caiff gofal a chymorth eu darparu gan ddarparwyr allanol a/neu ein tîm Ailalluogi mewnol fel a benderfynir trwy asesiad llawn a dull aml-ddisgyblaethol
- Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn caffael cymorth gweithwyr prosiect ar gyfer gyda'r nos a phenwythnosau. Mae'n allweddol bod staff cymorth yn dilyn dull gweithredu sy'n dangos cynnydd.
- Caiff lleoliadau Rhannu Bywydau eu defnyddio weithiau ar gyfer seibiant. Rydym yn rhagweld mwy o ddefnydd o Rhannu Bywydau ar gyfer seibiant nawr bod gennym gontract bloc gyda darparwr allanol.
- Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o wasanaethau seibiant ei drefnu gan unigolion a'u teuluoedd trwy daliad uniongyrchol, gan gynnig amrywiaeth o ddewisiadau hyblyg a rhai sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae defnyddio taliadau uniongyrchol yn rhan glir o'n cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau seibiant, ac rydym yn awyddus iawn i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer cefnogaeth hunangyfeiriedig yn y maes hwn.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer gwasanaethau seibiant

- Rydym ni'n bwriadu edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu seibiant (gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o ragor o leoliadau Rhannu Bywydau).
- Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol fel y dewis a ffefrir ar gyfer caffael gwasanaethau seibiant. Rydym yn annog darparwyr presennol a phosibl i ystyried y ffordd orau o ragweld, cefnogi ac ymateb i anghenion pobl sy'n caffael eu gwasanaethau eu hunain.
- Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gefnogi datblygiad dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer anghenion seibiant cymhleth/arbenigol.

5.2.5 Eiriolaeth, ymgynghori a gwybodaeth

Y sefyllfa bresennol

- Mae eiriolaeth yn un ffordd o alluogi unigolion ag anableddau cymhleth i gyfathrebu eu barn, ofnau, anghenion a phryderon, a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

clywed, yn y pen draw. Mae angen eiriolaeth 1:1 ar rai unigolion i'w helpu â phroblem neu sefyllfa benodol; mae'n bosibl y bydd angen eiriolaeth grŵp ar unigolion eraill er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

- Mae gwybodaeth hygyrch dda yn hanfodol hefyd ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. Mae'r galw am wybodaeth yn newid o ran bod mwy o bobl yn cael gafael ar wybodaeth ar y rhyngwyd. Mae pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr hefyd yn cael mynediad i Bwyntiau Siarad rheolaidd y Tîm Anableddau Cymhleth mewn lleoliadau ar draws y sir.
- Yn Sir Ddinbych, caiff gwasanaethau eiriolaeth a gwybodaeth ffurfiol ar gyfer pobl ag anableddau cymhleth eu darparu gan ddau sefydliad annibynnol ar wahân.
 - Caiff hunan-eiriolaeth (gan gynnwys ymgynghori) a'r gwasanaeth eiriolaeth unigol eu darparu gan Gymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru. Mae grwpiau hunan-eiriolaeth yn cwrdd mewn lleoliadau ar draws y sir ac maen nhw'n darparu cynrychiolaeth ar lefel Cymru gyfan. Mae aelodaeth o'r grwpiau hyn yn cael ei hannog.
 - Mae Cyswllt Sir Ddinbych yn darparu ymgynghoriad a gwybodaeth – cynhelir cyfarfodydd misol, a bydd aelodau'n darparu cynrychiolaeth o grwpiau allweddol. Maen nhw'n hyrwyddo aelodaeth o'u fforwm rhieni a gofalwyr.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer eiriolaeth, ymgynghoriad a gwybodaeth

- Rydym ni'n bwriadu parhau i ariannu eiriolaeth, cefnogaeth ymgynghori a darpariaeth gwybodaeth.
- Hoffem weld datblygiad grwpiau hunan-eiriolaeth Cymraeg eu hiaith.
- Hoffem weld rhagor o ddefnydd yn cael ei wneud o'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau dros y we i alluogi pobl i gael llais a mynediad i wybodaeth leol a chenedlaethol.
- Lle bynnag bo'n ddichonadwy a phriodol, hoffem archwilio cyfleoedd ar gyfer dull gweithredu isranbarthol, er enghraifft, gyda'n cymdogion yng Nghonwy.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.3 Cymorth i ofalwyr

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn.

Mae'r Ddeddf yn cryfhau hawliau statudol gofalwyr, gan olygu os oes gan ofalwyr anghenion sy'n gymwys am gefnogaeth, bod dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar Gynllun Cenedlaethol i Ofalwyr. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y gall gofalwyr wynebu rhwystrau yn eu bywydau bob dydd sy'n eu hatal rhag cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, ac rydym hefyd yn gwybod bod gofalu yn dod yn fwy cymhleth. Felly mae angen i gefnogaeth i ofalwyr yn y dyfodol fod yn fwy eang nag iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n golygu bod angen ymateb wedi'i gydlyn ar draws y llywodraeth, yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r gymuned.

Yn Sir Ddinbych, mae nifer y gofalwyr di-dâl o bob oed yn cynyddu, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu. Mae'r ganran uchaf o ofalwyr di-dâl yng Ngogledd Cymru yn Sir Ddinbych – tua 13% o boblogaeth y sir. Roedd partneriaid a gofalwyr Sir Ddinbych yn rhan weithredol o ddatblygu Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018, ac maent wedi cytuno i'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae gofalwyr yn flaenoriaeth gorfforaethol hefyd. Rydym wedi ymrwymo i gomisiynu gwasanaethau i ofalwyr sy'n cynnal canolbwynt ar iechyd a lles, hyrwyddo cydgynhyrchiad a galluogi gofalwyr i gael mynediad i'w cymunedau.

Mae nifer o wahanol feysydd gwasanaeth a ffyrdd rydym ni'n comisiynu a darparu cymorth i ofalwyr:

5.3.1 Darpariaeth a ariennir gan grantiau a'r Gronfa Gofal Integredig

Y sefyllfa bresennol

- Mae nifer o'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr wedi'u hariannu gan grant gyda sefydliadau trydydd sector, ac ar gael i bob gofalwr ar sail atgyfeiriad agored heb fod angen asesiad ffurfiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwybodaeth a

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad

Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

chyfeirio, cefnogaeth ymarferol ac emosiynol (gan gynnwys cymorth un i un, cefnogaeth gan gymheiriaid a grwpiau) a hyfforddiant.

- Mae'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) wedi helpu i yrru gweithio integredig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, ynghyd â phartneriaid y trydydd sector. Yn y blynyddoedd diweddar, cafodd cwmpas y gronfa ei estyn i gynnwys gofalwyr, ac mae rhai prosiectau bach wedi'u hariannu gyda chanolbwynt ar wella lles unigolion ag anghenion cefnogaeth a'u gofalwyr (e.e. prosiect garddio The Perennials Age Connect). Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi'i hestyn tan 2022 oherwydd yr effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar brosiectau presennol a ariennir ganddi.
- Mae gwaith ymchwil yn dangos y gall gweithgareddau fel celf, gweithgareddau corfforol a chymdeithasol helpu i gefnogi iechyd meddwl gofalwr a helpu i atal unigrwydd ac unigedd.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu ar gyfer darpariaeth a ariennir gan grantiau a'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gofalwyr

- Bydd angen i ni weithio gyda darparwyr a ariennir gan grantiau i wella cofnodi a pharatoi ar gyfer y metrigau newydd (a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer diwallu anghenion gofalwyr. Mae angen i wasanaethau ddangos gwerth cymdeithasol ac economaidd trwy gymysgedd o straeon cadarnhaol, data cywir am ofalwyr a mesurau gwerthuso. Bydd angen i asiantaethau'r trydydd sector a ariennir gan grantiau hefyd barhau i ddangos bod gwasanaethau gwerth gorau yn cael eu darparu.
- Byddwn ni'n parhau i adolygu grantiau/contractau'r trydydd sector i sicrhau bod pob darpariaeth yn cefnogi darpariaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'u bod yn ymateb i anghenion newidiol gofalwyr.
- Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i groesawu ceisiadau ar y cyd a chynigion am brosiectau bach ar gyfer cyllid y Gronfa Gofal Integredig, gan gynnwys i gwblhau prosiectau presennol y mae COVID-19 wedi amharu arnynt, ac ar gyfer prosiectau llai y gellir eu cwblhau yn ystod 2021-2022. Rydym ni'n rhagweld y caiff cronfa arall ei sefydlu yn 2022, er nad yw'r manylion wedi'u cadarnhau eto.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.3.2 Gwybodaeth, cyngor ac ymgysylltiad

Y sefyllfa bresennol

- Mae Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych, Pwyntiau Siarad a Thimau Adnoddau Cymunedol integredig yn chwarae rôl sylweddol o ran nodi gofalwyr, a'u cysylltu â'r wybodaeth a/neu gefnogaeth barhaus a allai fod eu hangen arnynt.
- Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr gweithredol yn Sir Ddinbych a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan y trydydd sector, sy'n darparu cyfleoedd i glywed lleisiau gofalwyr a sicrhau bod pob math o ofalwr yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau.
- Caiff Gofalwyr Ifanc WCD eu comisiynu ar sail isranbarthol i eirioli ar ran gofalwyr ifanc a'u teuluoedd. Mae Gofalwyr Ifanc WCD hefyd yn cynnal grwpiau gofalwyr i ofalwyr ifanc gan weithio gydag ysgolion a cholegau hefyd. Caiff cefnogaeth arall i ofalwyr ifanc ei darparu trwy wasanaethau plant a theuluoedd. Amcangyfrifir bod tua 2000 o ofalwyr ifanc yn Sir Ddinbych – mae 350 o ofalwyr ifanc yn hysbys i'r gwasanaethau.
- Mae Asesiad o Anghenion Gofalwyr yn sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gydag Asesydd Gofalwyr wedi'i hyfforddi, a gaiff eu comisiynu gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC). Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar nodi a deall anghenion y gofalwr, edrych ar p'un a fyddai'r gofalwr yn fodlon parhau i ofalu, ac a fydd yn gallu gwneud hynny, a p'un a ydynt yn fodlon â'r gefnogaeth a ddarperir. Mae cyfraddau cwblhau asesiadau yn dweud wrthym bod nifer sylweddol o ofalwyr yn y sir nad ydym yn gwybod amdanynt.
- Mae GOGDdC hefyd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth lefel is i ofalwyr, gan gymryd golwg cyfannol o'u sefyllfa.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer gwybodaeth a chyngor

- Mae'n rhaid i ni barhau i weithio i sicrhau bod gan ofalwyr fynediad at wybodaeth amserol o amrywiaeth o blatfformau/fformatau, gan gynnwys cefnogaeth ar-lein, er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl ofalu a'u cefnogi i gael bywyd eu hunain.
- Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo Un Pwynt Mynediad, Pwyntiau Siarad a nifer y bobl sy'n manteisio ar asesiadau gofalwyr.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

- Mae angen i ni sicrhau bod gofalwyr yn rhan o gyd-gynhyrchu a chynllunio pob gwasanaeth yn y dyfodol.
- Rydym am sefydlu a chynnwys cynnig atal cydgysylltiedig, gan gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant ymarferol ac emosiynol – gan gefnogi gofalwyr i nodi eu hunain fel gofalwyr ar gam cynnar, meithrin cadernid, sgiliau a hyder, ac osgoi cyrraedd sefyllfaoedd argyfwng.
- Byddwn hefyd yn datblygu dulliau gweithredu sy'n cefnogi gofalwyr i gynllunio ar gyfer y tymor hir a dyfodol y tu hwnt i ofalu, ochr yn ochr â chefnogaeth ymarferol fel seibiannau a gweithgareddau cymdeithasol.
- Byddwn ni'n sefydlu llwybrau atgyfeirio clir a phriodol, lle mae angen symud ymlaen at wasanaethau mwy dwys.

5.3.3 Cymorth un i un

Y sefyllfa bresennol

- Rydym ni'n comisiynu gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Gofalwyr mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i gefnogi rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n cael gwasanaethau gan y Tîm Triniaeth Cartref Iechyd Meddwl i Oedolion. Mae'n cynnig gwasanaeth am amser cyfyngedig i ofalwyr yn ystod yr ymyrraeth aciwt ar gyfer y person sy'n derbyn gofal. Trosglwyddir cefnogaeth tymor hir i'r gofalwr yn ôl i'r Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol a'r trydydd sector.
- Mae'r Gweithiwr Gofalwyr Iach yn seiliedig yn y tîm Un Pwynt Mynediad. Mae'n darparu gwasanaeth ar draws y sir i ofalwyr yn eu cartrefi, gyda chymorth un i un a mwy o ganolbwynt ar gynnal iechyd a lles y gofalwr ei hun. Gall y Gweithiwr Gofalwyr Iach hefyd roi cymorth un i un i ofalwyr nad ydynt yn gallu cwblhau'r hyfforddiant, yn enwedig mewn perthynas â symud a chodi mwy diogel, a gofal cefn da.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer gwasanaethau cymorth un i un

- Bydd y gwasanaethau cymorth allweddol hyn yn parhau i gael eu darparu, a byddwn yn parhau i fonitro galw ac anghenion newidiol.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

5.3.4 Seibiant oddi wrth Ofalu

Y sefyllfa bresennol

- Darperir Gwasanaethau Eistedd i ofalwyr sydd angen seibiant tymor byr rheolaidd i'w galluogi i barhau i ofalu, lle na ellir diwallu'r angen mewn unrhyw ffordd arall. Mae adolygiadau rheolaidd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn briodol i ddiwallu anghenion y gofalwr a'r rhai sy'n derbyn gofal. Comisiynir pob gwasanaeth eistedd dan drefniadau prynu yn ôl y galw gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Gweithredir y broses frocera ar gyfer gofal cartref yn yr un ffordd â'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau eistedd.
- Codir tâl ar y person sy'n derbyn gofal am wasanaeth seibiant preswyl tymor byr ac mae'n destun cynllun gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal. Mae'n cael ei gomisiynu ar gyfer yr unigolyn yn unol â'n proses gaffael am seibiant preswyl tymor byr.
- Ar hyn o bryd, rydym yn comisiynu Cynllun Pontio gan GOGDdC, sy'n cynnig cynllun hyblyg i ofalwyr ar gyfer seibiant tymor byr. Bydd gofalwyr yn cael taleb ar ôl asesiad gofalwyr, a gellir cyfnewid y daleb am wasanaethau.
- Mae arosiadau seibiant ar gael i ofalwyr yng nghynlluniau Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych hefyd. Gall gofalwyr gael seibiant yn y llety gwesteion, a gall yr unigolyn sy'n derbyn gofal aros am seibiant a chael y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir ar y safle. Mae gofalwyr yn cael dewis a hoffent gael prydau a chymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarperir ar y safle.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer seibiannau oddi wrth ofalu

- Byddwn ni'n parhau i gynnig taliadau uniongyrchol unigol i ariannu seibiannau a byddwn yn annog rhagor o bobl i fanteisio ar yr adnodd hwn.
- Byddwn ni'n adolygu darpariaeth bresennol a dewisiadau ar gyfer seibiant/seibiannau byr.
- Rydym am i ofalwyr gael amrywiaeth o ddewisiadau i gael mynediad at seibiant o'u rôl ofalu, gan gynnwys modelau cefnogaeth arloesol, a dewisiadau hyblyg ar gyfer y tu allan i oriau swyddfa/penwythnosau, yn ystod adegau straen/argyfwng, a dewisiadau llety dros dro i ymateb i anghenion iechyd mwyfwy cymhleth yr unigolyn

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

sy'n derbyn gofal. Hoffem hefyd sicrhau capasiti ar gyfer seibiannau ychwanegol i ofalwyr, gan gynnwys cefnogaeth i fynychu apwyntiadau.

- Hoffem weithio gyda darparwyr, wrth gyd-gynhyrchu â gofalwyr, i ddatblygu ac ehangu'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael ar gyfer seibiant, fel rhan o gynnydd cefnogaeth ataliol cydgysylltiedig.
- Byddem ni'n croesawu trafodaethau â darparwyr am fodelau posibl eraill o ran seibiant/seibiannau tymor byr, er enghraifft, cefnogaeth gyfeillio, capasiti gwirfoddolwyr ychwanegol, cynyddu'r defnydd o Rhannu Bywydau, seibiannau cefnogaeth gofal arbenigol ar gyfer unigolion ag anabledau/cyflyrau iechyd penodol, a gofal amgen (darparu seibiant i'r gofalwr trwy gefnogi'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn eu cartref eu hunain).
- Byddwn ni'n parhau i gaffael gwasanaethau seibiant preswyl tymor byr trwy drefniadau prynu yn ôl y galw - nid ydym yn bwriadu contractio'r math hwn o wasanaeth fel bloc gan ei bod yn bwysig cynnal hyblygrwydd y ddarpariaeth ac ymateb i anghenion unigol.

5.3.5 Cymorth arall – ariannol, brys a hyfforddiant

Y sefyllfa bresennol

- Caiff grantiau un tro eu darparu gan Gyngor Sir Ddinbych i brynu eitem neu wasanaeth i ddiwallu anghenion a aseswyd ar gyfer gofalwr. Fel rheol, darperir grantiau i brynu pethau fel nwyddau gwyn, therapïau cyfannol, seibiannau byr, gwasanaethau garddio a gwersi gyrru.
- Caiff cynllun Cardiau Argyfwng Gofalwyr ei reoli ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a sefydliad y trydydd sector. Mae'n rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl i ofalwyr pan fyddant allan, gan ddarparu gwasanaeth ymateb i alwadau 24 awr trwy'r Un Pwynt Mynediad a gwasanaeth Ymateb i Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hyfforddiant ar gael ac o fewn cyrraedd i ofalwyr. Mae rhywfaint o gyllid ar gael gan ein Grant Datblygu'r Gweithlu yn benodol i ariannu hyfforddiant i ofalwyr, a gaiff ei ddsbarthu'n gyffredinol mewn grantiau bach i sefydliadau'r trydydd sector sydd wedi nodi bylchau o ran hyfforddiant i ofalwyr. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a Bwriadau Comisiynu 2021 - 2024

hefyd wedi gweithio gyda'r trydydd sector ac wedi agor ein cynlluniau hyfforddi staff ein hunain i ofalwyr, cyn belled bod cynnwys y cwrs yn briodol.

Beth sydd angen i ni ei ddatblygu a'i gomisiynu ar gyfer cymorth arall i ofalwyr

- Bydd y gwasanaethau allweddol hyn yn parhau i gael eu darparu, a byddwn yn parhau i fonitro galw ac anghenion newidiol.